



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

Sicrhau Tegwch

Cynllun Cydraddoldeb Strategol

2024 - 2028



Datganiad Hygyrchedd

Mae'r adroddiad hwn ac unrhyw ddogfennau ategol ar gael yn
Gymraeg a gellir eu darparu mewn ieithoedd a fformatau eraill ar gais

Ar gyfer fformatau eraill, cysylltwch â:

Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt Cleifion

Rhif ffôn: 03000 851234



BCU.PALS@wales.nhs.uk

Rydym ar agor rhwng 0900 a 1700 o ddydd Llun i ddydd Gwener (ac eithrio
gwyliau banc)



I gysylltu â'r Tîm Cydraddoldeb yn BIPBC, anfonwch e-bost i:

BCU.Equality@wales.nhs.uk

Rydym ar agor rhwng 0900 a 1700 o ddydd Llun i ddydd Gwener (ac eithrio
gwyliau banc)

Cynnwys

Rhagair.....	4
Ein Hymrwymiad i Sicrhau Tegwch	7
Gwybodaeth am y Bwrdd Iechyd a'r Boblogaeth yng ngogledd Cymru	8
Deddfwriaeth Cydraddoldeb a Chyd-destun Strategol.....	10
Fframwaith Mesurau Arbennig.....	13
Beth yw Amcanion Cydraddoldeb Strategol?.....	13
Sut y gwnaethom ddatblygu ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol? .	14
Ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024-2028	16
Ein hymrwymiad i gyflawni ein hamcanion.....	35
Atodiadau	36
Atodiad 1: Deddfwriaeth Cydraddoldeb a Chyd-destun Strategol	37
Atodiad 2: Gwybodaeth ddemograffig.....	43
Atodiad 3: Ymgysylltiad â'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol.....	54
Atodiad 4: Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru – Amcanion Cyffredin	59

Rhagair

Croeso i Amcanion Cydraddoldeb Strategol a Chynllun Gweithredu
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) ar gyfer 2024-2028.

Mae'r cynllun hwn yn dangos ein hymrwymiad parhaus i hyrwyddo a chyflawni cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol ym mhopeth a wnawn. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i sicrhau tegwch ym maes iechyd i'n defnyddwyr gwasanaeth. Rydym wedi ymrwymo i greu gweithle tecach a mwy amrywiol, lle mae amrywiaeth yn cael ei groesawu a lle mae pobl yn cael eu gwerthfawrogi. Yn ystod 2020-2024, mae'r Bwrdd Iechyd wedi wynebu'r heriau cynyddol sy'n wynebu'r GIG wrth iddo ymateb i bwysau nas gwelwyd o'r blaen ar y gwasanaeth, technolegau meddygol newydd, gweithlu sy'n newid a gwahanol faterion iechyd.

Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn rhan allweddol o ymrwymiad y Bwrdd Iechyd i gyflawni ein nodau sef:

- Gwellu iechyd a llesiant corfforol, emosiynol a meddyliol i bawb.
- Targedu ein hadnoddau at y bobl sydd â'r anghenion mwyaf a lleihau anghydraddoldebau.
- Cefnogi plant i gael y dechrau gorau mewn bywyd.
- Gweithio mewn partneriaeth i gefnogi pobl – unigolion, teuluoedd, gofalmwyr, cymunedau – i wella eu llesiant eu hunain.
- Gwellu diogelwch ac ansawdd yr holl wasanaethau.
- Parchu pobl a'u hurddas.
- Gwrando ar bobl a dysgu o'u profiadau.

Fel Bwrdd Iechyd, byddwn yn gweithio i sicrhau bod ein rhwymedigaethau

statudol i gyflawni Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn cael eu deall a'u cyflawni. Byddwn yn craffu ar y gwaith o weithredu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol, y cytunwyd arno gan ein Bwrdd Iechyd yn 2024, a byddwn yn ymdrechu i sicrhau bod ein sefydliad yn deg, yn ymatebol, yn gynhwysol ac yn hygyrch i bawb wrth i ni weithio tuag at y nod o greu Cymru decach a mwy cyfartal.

Er mwyn i newidiadau cadarnhaol ddigwydd yn ein sefydliad a'r gymdeithas ehangach, mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod angen i ni nodi'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag cael gafael ar ofal iechyd. Mae angen i ni fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â mynediad at wasanaethau, seilwaith, anfantais economaidd-gymdeithasol ac amrywiaeth ein gweithlu a'n poblogaeth. Mae angen i ni weithio mewn partneriaeth er mwyn chwalu rhwystrau i sicrhau canlyniadau cyfartal ac i gynnal hawliau pobl.

Mae'r cynllun hwn yn cydnabod y dystiolaeth a'r argymhellion yn y fframweithiau strategol fel *Monitor Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 2023: A yw Cymru'n Decach?* y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Adroddiad *Drws ar Glo: Datgloi bywydau a hawliau pobl anabl yng Nghymru ar ôl COVID-19* a *Chynllun Hyrwyddo Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau yng Nghymru 2020-2023* Llywodraeth Cymru.

Mae sbardunau cenedlaethol allweddol eraill ar gyfer ein Hamcanion Cydraddoldeb yn cynnwys *Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol* a *Chynllun Gweithredu LHDTTC+ Cymru*. Rydym yn cydnabod y bydd Tasglu Anabledd Llywodraeth Cymru, o fewn cylch pedair blynedd y cynllun hwn, wedi arwain at *Gynllun Anabledd Cymru*. Bydd y Bwrdd Iechyd yn ymgorffori'r argymhellion a'r camau gweithredu yn ei gynlluniau, yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac

yn nogfennau allweddol y Bwrdd Iechyd fel y *Cynllun Tymor Canolig Integredig* a Chynllun Tymor Hir y Bwrdd Iechyd – *Byw'n Iach, Aros yn Iach*.

Mae'r Bwrdd Iechyd o'r farn bod cydraddoldeb yn ymwneud â darparu gofal wedi'i bersonoli yn seiliedig ar anghenion unigolyn. Mae'n ymwneud â thrin pawb ag urddas a pharch. Rhaid i ni gyfathrebu'n effeithiol a diwallu anghenion unigol yn gyson yn ogystal ag adolygu ein gwasanaethau'n barhaus i sicrhau eu bod yn hygyrch ac yn gynhwysol, a'u bod yn aros felly.

Hoffai'r Bwrdd Iechyd ddiolch i bawb sydd wedi rhoi o'u hamser i roi eu barn, eu syniadau a'u hadborth. Maent wedi llunio ein blaenoriaethau ar gyfer gweithredu ac wedi ffurfio sail yr Amcanion Cydraddoldeb yn ein Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Strategol.



Dyfed Edwards
Cadeirydd



Carol Shillabeer
Prif Weithredwr

Ein Hymrwymiad i Sicrhau Tegwch

Mae hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant a gwerthfawrogi amrywiaeth i gyd yn hanfodol er mwyn cael gafael ar ofal iechyd a mynd i'r afael â chanlyniadau iechyd gwell.

Mae Ymrwymiad y Bwrdd Iechyd i Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant wrth galon popeth a wnawn. Mae hyn yn cynnwys creu amgylchedd gwaith cynhwysol ac amrywiol, lle mae cydraddoldeb yn cael ei ddatblygu, lle mae amrywiaeth yn cael ei werthfawrogi a lle mae cred graidd mewn mynediad teg at wasanaethau a bod ymddygiad gwahaniaethol yn cael ei herio o'r dechrau. Rydym am i'n staff deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u bod yn ddiogel yn y gwaith.

Rydym am i'n cleifion, eu teuluoedd, eu ffrindiau a'u gofalmwyr deimlo'n ddiogel ac ymddiried ynom ni. Rydym yn cydnabod y bydd ein gwasanaethau hefyd yn elwa pan fyddwn yn creu'r diwylliant hwn, ac y byddant yn dosturiol, yn gynhwysol ac yn hygyrch. Nod ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol ar gyfer y pedair blynedd nesaf yw lleihau anghydraddoldebau iechyd a gwella llesiant a gofal iechyd yng ngogledd Cymru.

Mae'r ddogfen hon yn nodi ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol ar gyfer y pedair blynedd nesaf a'i nod yw dangos sut byddwn yn cyflawni'r Ddyletswydd Cydraddoldeb. Mae ein hamcanion yn cael eu llywio gan Weledigaeth, Gwerthoedd a Phwmpas BIPBC.

Ein Gweledigaeth:

- Byddwn yn gwella iechyd y boblogaeth, gyda phwyslais penodol ar y rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas.

- Byddwn yn gwneud hyn drwy ddatblygu gwasanaeth iechyd integredig sy'n darparu gofal rhagorol wedi'i roi mewn partneriaeth â sefydliadau sector cyhoeddus, a sefydliadau statudol a thrydydd sector eraill.
- Byddwn yn datblygu ein gweithlu fel bod ganddynt y sgiliau cywir a'u bod yn gweithredu mewn diwylliant dysgu sy'n gyfoethog o ran ymchwil.

Ein Gwerthoedd:

- Rhoi cleifion yn gyntaf.
- Gweithio gyda'n gilydd.
- Gwerthfawrogi a pharchu ein gilydd.
- Dysgu ac arloesi.
- Cyfathrebu'n agored ac yn onest.

Ein Pwrpas: Gwella iechyd a darparu gofal rhagorol.

Gwybodaeth am y Bwrdd Iechyd a'r Boblogaeth yng ngogledd Cymru

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yw'r sefydliad iechyd mwyaf yng Nghymru sy'n ymestyn dros 2,500 milltir sgwâr, ac mae'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau gofal sylfaenol, gofal cymunedol, iechyd meddwl, iechyd y cyhoedd ac ysbyty aciwt.

Mae gennym dri ysbyty dosbarth; Ysbyty Gwynedd ym Mangor, Ysbyty Glan Clwyd ym Modelwyddan ac Ysbyty Maelor Wrecsam, yn ogystal â rhwydwaith o ysbytai cymunedol, canolfannau iechyd, clinigau, unedau iechyd meddwl a lleoliadau timau cymunedol. Rydym hefyd yn cydlynu'r trefniadau contractio ar gyfer gwasanaethau Gofal Sylfaenol a gwasanaethau'r GIG a ddarperir gan ddeintyddion, optegwyr a fferyllwyr yng

ngogledd Cymru¹.

Mae 686,909 o bobl yn byw yng ngogledd Cymru². Mae BIPBC yn sefydliad angori ac rydym yn cyflogi nifer sylweddol o staff – 19,376 o bobl, ac mae'r mwyafrif helaeth ohonynt hefyd yn defnyddio ein gwasanaethau. Fel sefydliad angori, rydym yn cydnabod bod gennym ran i'w chwarae o ran gweithio gyda chymunedau ar draws gogledd Cymru i gefnogi ac annog pobl i ddilyn llwybrau gyrfa ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

Nodweddion gogledd Cymru:

- Mae gennym ardal ddaearyddol fawr sy'n cynnwys ardaloedd gwledig sylweddol.
- Mae gennym boblogaeth hŷn sy'n tyfu ac amrywiaeth o broffiliau oedran ar draws Awdurdodau Lleol.
- Rydym yn llai amrywiol o ran ethnigrwydd na Chymru gyfan.
- Mae nifer sylweddol o'n poblogaeth yn siarad Cymraeg.
- Mae gennym nifer cynyddol o bobl â chyflyrau iechyd tymor hir, ac mae 10.2% o bobl yr ardal yn darparu gofal di-dâl³.
- Mae gennym rai o'r ardaloedd mwyaf economaidd-gymdeithasol difreintiedig yng Nghymru, yn enwedig ar hyd arfordir gogledd Cymru sydd wedi'i daro waethaf gan yr argyfwng costau byw.
- Roedd 23.1% (862 o droseddau) o'r holl droseddau casineb yng Nghymru (a gofnodwyd yn 2022-2023) yng ngogledd Cymru gyda chyfraddau anghymesur o uchel o droseddau casineb yn ymwneud â thrawsrywedd ac anabledd⁴.

Rydym yn cydnabod bod anghydraddoldebau iechyd yn bodoli yn y gogledd, ac rydym wedi ymrwymo i sicrhau tegwch ym maes iechyd. Mae rhagor o

¹ <https://bipbc.gig.cymru/>

² Ar ddiwrnod y Cyfrifiad, 2021


³ Nomis - Official Census and Labour Market Statistics - Nomis - Official Census and Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk)

⁴ Hate crime, England and Wales, 2022 to 2023 second edition - GOV.UK (www.gov.uk)

ddata demograffig ar gael yn Atodiad 2.

Deddfwriaeth Cydraddoldeb a Chyd-destun Strategol

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cynnwys y meysydd blaenoriaeth allweddol y mae angen i'r Bwrdd Iechyd ganolbwyntio arnynt i wella bywydau a phrofiadau pobl yng Nghymru. Mae'r rhain yn cyd-fynd ag amrywiaeth o sbardunau strategol cenedlaethol a lleol, a fydd yn cael eu cynnwys yn y cynllun gweithredu. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod y bydd Cynllun Gweithredu Anabledd Llywodraeth Cymru yn cael ei gyhoeddi yn ystod cyfnod pedair blynedd yr Amcanion Cydraddoldeb a'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol hyn. Bydd y meysydd gweithredu allweddol a nodwyd yn cael eu cynnwys yn y cynllun gweithredu i sicrhau bod adnoddau'n cael eu dyrannu a bod cynnydd yn cael ei wneud.



Tabl yn dangos aliniad y gofynion deddfwriaethol, y sbardunau strategol, yr ymgysylltu a'r cynlluniau lleol:

Ceir rhagor o fanylion am y rhain yn Atodiad 1.

Cydymffurfio â Deddfwriaeth ↓	Sbardunau Strategol ↓	Ymgysylltu a Chyfranogi ↓	Alinio â chynlluniau BIPBC ↓	Dangosyddion Llwyddiant a Deallusrwydd ↓
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	Gofal Mamolaeth yng Nghymru – Gweledigaeth 5 Mlynedd	Grŵp Arweinyddiaeth Cydraddoldeb GIG Cymru	Byw'n Iach, Aros yn Iach BIPBC	Demograffeg y Boblogaeth
Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol	Asesiad o Anghenion Iechyd Sipsiwn, Roma a Theithwyr	Ymgynghoriad Mewnol	Dyletswydd Gonestrwydd	Asesiadau o Anghenion Iechyd
Deddf Hawliau Dynol	Cymru Oed-Gyfeillgar	Rhanddeiliaid Cydraddoldeb	Strategaethau Rheoli Risg	Data'r Cyfrifiad (dogfen fewnol Knowing Our Patch)
Y Ddeddf Plant	Hyrwyddo Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau yng Nghymru	Rhwydweithiau Cydraddoldeb	Cynllun Tymor Canolig Integredig/Cynllun Blyneddol	Data Cyflogaeth
Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol	Cenedl Noddfa	Ymgynghoriad Cyhoeddus	Cynlluniau Iechyd a Llesiant	Data Troseddau Casineb

a Llesiant (Cymru)				
Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus	Adroddiad Iechyd Menywod yng Nghymru	Ymgysylltu â Rhanddeiliaid	Fframwaith Cynllunio GIG Cymru	Metrigau Perfformiad
Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) 2020	Safonau Cyfathrebu Hygyrch	Grwpiau Cleifion	Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu	Data'r Gweithlu
Dyletswydd Ansawdd	Cynllun Gweithredu Cymru Wrth- hiliol	Digwyddiad Gwrandio LHDTC+	Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru	Data Rhestr Aros
	Cod Ymarfer ar gyfer Awtistiaeth	Ymgysylltiad y Cynllun Gwrth- hiliol	Fframwaith Mesurau Arbennig	Adroddiadau Bwlch Cyflog
	A yw Cymru'n Decach?	Gwybodaeth drwy Bartneriaethau	Cynlluniau Cymuned Iechyd Integredig	Data Profiad Cleifion
	Cynllun Plant a Phobl Ifanc		Cynlluniau Clwstwr	
	Cynllun Cydraddoldeb Strategol		Strategaeth Ystadau	

	Llywodraeth Cymru			
	Tasglu Hawliau Pobl Anabl		Gwneud Pethau'n lawn y Tro Cyntaf	
	Cynllun Gweithredu LHDTC+		Strategaeth Pobl	

Fframwaith Mesurau Arbennig

Ym mis Chwefror 2023, rhoddodd Llywodraeth Cymru y Bwrdd Iechyd mewn Mesurau Arbennig. Mesurau arbennig yw'r lefel uwchgyfeirio uchaf, a nodir pan fo angen gwella a newid trefniadau'n sylweddol.

“Bydd cefnogi a galluogi ein staff i ddarparu gwasanaethau effeithiol o ansawdd uchel yn allweddol er mwyn cyflawni hyn. Rydym yn cydnabod y bydd arweinyddiaeth dosturiol yn hanfodol i greu diwylliant lle mae staff yn teimlo eu bod yn cael eu grymuso i gyflawni hyn.”

Beth yw Amcanion Cydraddoldeb Strategol?

Fel corff rhestredig yng Nghymru o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae'n rhaid i ni gyhoeddi Amcanion Cydraddoldeb Strategol a datblygu cynllun bob pedair blynedd. Fel sefydliad mawr yng Nghymru, rydym yn 'sefydliad angori'. Mae hyn yn golygu bod ein cynaliadwyedd tymor hir yn gysylltiedig â llesiant y poblogaethau rydym yn eu gwasanaethu. Mae gennym gyfrifoldebau fel darparwr iechyd ac fel cyflogwr. Diben y Cynllun

Cydraddoldeb Strategol hwn yw disgrifio BIPBC a dogfennu'r camau y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu cymryd i gyflawni ei Ddyletswyddau Penodol o dan y Ddeddf Cydraddoldeb. Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cyd-fynd â Rheoliadau 14 a 15 Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus o ran gwaith cyhoeddi ac adolygu.

Sut y gwnaethom ddatblygu ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol?

Mae'r Amcanion Cydraddoldeb wedi cael eu cynllunio ar y cyd, gan gydnabod na fydd canolbwyntio ar iechyd yn unig yn diwallu anghenion amrywiol ein poblogaeth. Defnyddio dull system gyfan a gweithio mewn partneriaeth ag amrywiaeth o bobl a sefydliadau ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector yw'r ffordd fwyaf effeithiol a chynhwysol o ddeall profiadau, safbwyntiau ac anghenion ein poblogaeth, a sut gallwn ymateb yn briodol iddynt.


Ym mis Mehefin 2023, lansiodd y Bwrdd Iechyd arolwg cyhoeddus ac roedd yn gwahodd sefydliadau'r sector cyhoeddus, busnesau, grwpiau cymunedol, cleifion, gofalwyr a phoblogaeth ehangach gogledd Cymru i'w lenwi. Roedd hwn ar gael ar-lein a chynhaliwyd sawl sesiwn ymgysylltu wyneb yn wyneb ledled gogledd Cymru. Aeth y tîm Cydraddoldeb i ddigwyddiadau a chyfarfodydd grwpiau cymunedol i gwrdd â chymaint o aelodau â phosibl o wahanol gymunedau ar draws gogledd Cymru.

Cafodd canlyniadau'r gwaith ymgysylltu eu dadansoddi gan y Tîm Cydraddoldeb, ac roedd 17 o themâu cychwynnol wedi dod i'r amlwg. O'r rhain, nodwyd chwe amcan cyffredinol. Mae'r rhain yn rhoi'r fframwaith ar gyfer datblygu'r cynllun gweithredu. Mae'r wybodaeth hon, yn ogystal â phwy gymerodd ran, ar gael yn Atodiad 3. Mae gwaith ymgysylltu ychwanegol

wedi cael ei wneud fel rhan o'r Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliol a'r Cynllun Gweithredu LHDTC+. Cafwyd rhagor o ymgysylltu gan Rwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru. Mae'r Amcanion Cyffredin ar gael yn Atodiad 4.

Gwnaethom gynnal dadansoddiad helaeth o'n sbardunau strategol, ein gofynion deddfwriaethol a'n gwybodaeth leol i sicrhau bod y rhain yn cael eu hadlewyrchu yn y cynllun hwn a hefyd yn cyd-fynd â'r cynllun tymor canolig integredig.

Ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024-2028



Cyflwyno ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol

Amcan A: Sicrhau tegwch drwy weithio mewn partneriaeth – ‘dim byd amdanoch chi heboch chi’

Gweithio
mewn
Partneriaeth

Datganiad:

Mae'r amcan hwn yn dangos ein hymrwymiad i wrando ar ein partneriaid a'n poblogaeth a gweithio gyda nhw i ddylunio a darparu gofal iechyd teg sy'n seiliedig ar hawliau ac sy'n gynaliadwy.

Beth mae'r dystiolaeth yn ei ddweud wrthym:

Gwyddom fod angen i ni weithio gyda phobl.

- Mae Adolygiad Marmot⁵ yn dweud wrthym: Mae anghydraddoldebau iechyd yn deillio o anghydraddoldebau cymdeithasol. Mae gweithredu ar anghydraddoldebau iechyd yn gofyn am weithredu ar draws holl benderfynyddion cymdeithasol iechyd.
- O'r broses ymgysylltu wrth ddatblygu'r Amcanion Cydraddoldeb Strategol yn y cynllun hwn, roedd yn amlwg pa mor bwysig oedd lleisiau a phrofiadau pobl o ran cyd-gynhyrchu.
- Mae'r sbardunau strategol yn amlinellu'r ddyletswydd i ymgysylltu, fel ymrwymiad i wella ymgysylltiad â'r cyhoedd o dan nod llesiant 'Cymru Iachach' Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

⁵ Marmot Review 10 Years On - IHE (instituteofhealthequity.org)

Sut rydym yn bwriadu cyflawni hyn:

Blaenoriaeth		Canlyniadau Arfaethedig	Mesurau Canlyniadau	Amserlenni
A1	Adnabod cyfleoedd i wreiddio egwyddorion cyd-gynhyrchu a chyddylunio ar gyfer rhaglenni trawsnewid, datblygu strategaethau, cynllunio ac adolygu gwasanaethau a chanllawiau ac adroddiadau allweddol. Meithrin cyfranogiad defnyddwyr gwasanaethau.	Sicrhau bod tystiolaeth o wneud penderfyniadau cynhwysol yn gyson. Sicrhau bod profiadau bywyd poblogaeth gogledd Cymru, gan gynnwys y rheini sy'n byw gydag anghydraddoldeb iechyd hysbys, yn sail i ddatblygu gwasanaethau. Gwella hygyrchedd gwasanaethau iechyd. Datblygu perthynas gryfach rhwng defnyddwyr gwasanaethau a darparwyr gwasanaethau.	Nifer y strategaethau ac achosion busnes sy'n cael eu cyflwyno i'r Bwrdd sydd wedi cael eu cyd-gynhyrchu. Canran y strategaethau ac achosion busnes sy'n cael eu cyflwyno i'r Bwrdd sydd wedi cael eu cyd-gynhyrchu.	2024-2025

A2	Bwrw ymlaen ag argymhellion yn Adroddiad Darganfod Iechyd Menywod yng Nghymru i wella canlyniadau iechyd i fenywod a merched.	Nodi a gwreiddio technegau ac ymddygiadau sy'n sicrhau bod lleisiau menywod a merched yn cael eu clywed ym mhob rhyngweithiad â'r GIG.	Mesurau profiad sy'n gysylltiedig â chleifion. Mesurau canlyniadau sy'n gysylltiedig â chleifion. Nifer y staff sy'n defnyddio'r Gwasanaethau Cefnogi Llesiant Staff. Arolwg Staff y GIG ynghylch cefnogi llesiant staff.	2024-2028
		Darparu mynediad prydlon at gymorth a chefnogaeth ar draws y system iechyd. Datblygu cymorth yn y gweithle a chymorth iechyd meddwl gwell, gan alluogi mwy o bobl i ofalu am eu hunain a rheoli eu ffordd o fyw, a gwella cymorth i ymdopi â chanlyniadau iechyd a lles cyfrifoldebau rhieni a gofalwyr. Gwella a darparu mynediad haws at adnoddau gwybodaeth o ansawdd uchel. Gweithredu arferion gorau arloesol a darparu cyngor ac arweiniad ar sut gall y gweithle gefnogi llesiant, cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith, ac iechyd meddwl.	Mesurau profiad sy'n	2025-2028

		Creu sylfaen dystiolaeth sy'n seiliedig ar waith ymchwil ar bynciau allweddol sy'n cefnogi anghenion menywod a merched i'w defnyddio i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth.	gysylltiedig â chleifion. Mesurau canlyniadau sy'n gysylltiedig â chleifion.	
A3	Datblygu rhaglen ymgysylltu sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac ar Asesiadau o Anghenion Iechyd i gynnwys grwpiau sy'n cael eu tan wasanaethu.	Gwella'r berthynas rhwng grwpiau sy'n cynrychioli pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig ac arweinwyr Byrddau Iechyd.	Mesurau canlyniadau i gael eu pennu gan y sylfaen dystiolaeth.	2024-2026
A4	Defnyddio'r rhaglen Gogledd Cymru Iach i weithio gyda phartneriaid i ddatblygu dulliau system ymhellach i leihau anghydraddoldebau iechyd.	Lleihau anghydraddoldebau iechyd.	Bydd adolygiad blynyddol o Ddata Iechyd y Cyhoedd yn mesur cynnydd.	2024-2028
A5	BIPBC i barhau i gefnogi Grŵp Arweinyddiaeth Cydraddoldeb GIG Cymru a dylanwadu'n weithredol arno.	Dull gweithredu ar y cyd mewn meysydd allweddol fel Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb.	Cynyddu Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar y cyd, Cwblhau asesiadau o ansawdd gwell. Rhannu mwy o adnoddau	2024-2025 2024-2028

		Adroddiadau Llywodraeth Cymru a chydlyn ymgyrchoedd Cydraddoldeb.	adeg ymgyrchoedd.	
A6	Datblygu swyddogaeth cymorth cydraddoldeb ar gyfer y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol er mwyn gwella canlyniadau iechyd.	Gwella'r ddealltwriaeth o anghydraddoldebau iechyd a chyfrifoldebau Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus gan arwain at wneud penderfyniadau gwell.	Egwyddorion cydraddoldeb clir wedi'u mabwysiadu drwy flaenoriaethau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.	2025-2026

Datganiad:

Mae'r amcan hwn yn dangos ein hymrwymiad i ddatblygu a darparu gwasanaethau ar yr adeg iawn, ac yn yr amgylchedd cywir sy'n wirioneddol hygyrch, ac a fydd yn diwallu anghenion unigol.

Beth mae'r dystiolaeth yn ei ddweud wrthym:

- Roedd Adolygiad Cenedlaethol Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru o brofiadau gwasanaethau mamolaeth⁶ yn tynnu sylw at brofiadau a chanlyniadau negyddol pobl ethnig sy'n cael gofal mamolaeth.
- Roedd yr Adroddiad Drws ar Glo⁷ yn tynnu sylw at brofiadau niweidiol pobl anabl, gan gynnwys rhwystrau rhag cael gafael ar wasanaethau mamolaeth, gofal sylfaenol, gofal brys ac mewn argyfwng.
- Nid yw llawer o bobl Fyddar yn cael eu cofnodi fel pobl Fyddar yn eu cofnodion gofal sylfaenol. Os ydyn nhw wedyn yn cael eu hatgyfeirio at wasanaethau iechyd eraill, yn aml nid yw'r manylion penodol a allai effeithio ar eu profiad o'r gwasanaeth iechyd yn cael eu trosglwyddo, ac felly nid ydynt yn hysbys⁸. Mewn lleoliadau gofal iechyd, mae pobl LHDTTC+ yn teimlo y gallent brofi gwahaniaethu a chael eu trin yn anghyfartal. Tynnir sylw at enghreifftiau o'r anghydraddoldebau hyn yn adroddiad Stonewall ar Iechyd LHDT⁹, sy'n nodi bod bron i un o bob pedwar (23%) o bobl LHDTTC+ wedi bod yn dyst i sylwadau gwahaniaethol neu negyddol gan staff gofal iechyd am bobl LHDTTC+ ar un adeg. Yn ogystal â hynny, roedd 14% o'r ymatebwyr wedi osgoi cael triniaeth gofal iechyd oherwydd pryderon y byddent yn wynebu gwahaniaethu oherwydd

⁶ phw.nhs.wales/services-and-teams/improvement-cymru/our-work/matneosp/report/

⁷ Drws ar Glo: Datgloi bywydau a hawliau pobl anabl yng Nghymru ar ôl COVID-19 [HTML] | LLYW.CYMRU

⁸ https://www.swansea.ac.uk/media/Deaf-People-Wales_Hidden-Inequality-2021.pdf

⁹ [lgbt_in_britain_health.pdf](https://www.stonewall.org.uk/lgbt_in_britain_health.pdf) (stonewall.org.uk)

eu hunaniaeth LHDTTC+.

Sut rydym yn bwriadu cyflawni hyn:

Blaenoriaeth		Canlyniadau Arfaethedig	Mesurau Canlyniadau	Amserlenni
B1	Rhoi Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliol BIPBC ar waith.	Mae manylion llawn y canlyniadau'n cyd-fynd â Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.		
B2	Datblygu a gweithredu Cynllun Gweithredu LHDTTC+ BIPBC – Gyda'n Gilydd mewn Balchder – sicrhau mai Cymru yw'r wlad fwyaf cyfeillgar yn Ewrop i bobl LHDTTC+.	Mae manylion llawn y canlyniadau'n cyd-fynd â Chynllun Gweithredu LHDTTC+ Cymru – Gyda'n Gilydd mewn Balchder – sicrhau mai Cymru yw'r wlad fwyaf cyfeillgar yn Ewrop i bobl LHDTTC+.		
B3	Gweithredu Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar gyfer Gwasanaethau Awtistiaeth.	Mae manylion llawn y canlyniadau yn cyd-fynd â Chod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar gyfer Gwasanaethau Awtistiaeth.		
B4	Adolygu canfyddiadau Tasglu Hawliau Pobl Anabl Llywodraeth Cymru a rhoi unrhyw argymhellion ar waith.	Mae'r canlyniadau a'r mesur ar gyfer y flaenoriaeth hon yn aros i adroddiad Llywodraeth Cymru gael ei gyhoeddi.		
B5	Sicrhau bod gwybodaeth hygyrch ar gael i gleifion a gofalwyr yn unol â'r Safonau Cyfathrebu Hygyrch, gan gynnwys Siarter	Gwella mynediad at wybodaeth a gwasanaethau i bobl sy'n wynebu rhwystrau cyfathrebu.	Creu a dosbarthu pecynnau iaith cymunedol.	2024-2025
		Gwella ymwybyddiaeth staff o'r Gwasanaeth	Defnydd o'r Gwasanaeth Cyfieithu a	2024-2028

	BSL a safonau'r Gymraeg.	Cyfieithu a Chyfieithu ar y Pryd Cymraeg. Treialu'r defnydd o ap digidol dehongli BSL 'Sign Live'. Cofrestru ar gyfer y Siarter BSL	Chyfieithu ar y Pryd Cymraeg. Adroddiad gwerthuso. BIPBC yn cofrestru ar gyfer y Siarter BSL.	2024-2026 2024-2028
B6	Gwreiddio'r Siarter Hawliau Plant yn y Rhaglenni Trawsnewid.	Gwella ymwybyddiaeth o hawliau Plant a Phobl Ifanc mewn gofal iechyd.	Mesurau profiad sy'n gysylltiedig â chleifion. Mesurau canlyniadau sy'n gysylltiedig â chleifion. Cofrestru ar gyfer y Siarter Hawliau Plant.	2024-2028
B7	Rhoi'r cynllun Fy Mhasbort Iechyd ar waith – Amdanaf Fi, ar draws Gofal Sylfaenol ac Eilaidd.	Gwella profiadau cleifion sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig. Hyrwyddo gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.	Mesurau profiad sy'n gysylltiedig â chleifion. Gwerthuso'r cynllun Pasbort Iechyd.	2025-2027
B8	Rhoi prosiect Panel Hygyrchedd	Gwella hygyrchedd lleoedd a mannau sy'n	Nifer y cyfranogwyr	2024-2025

	gogledd Cymru ar waith.	cyfrannu at ofal iechyd ac iechyd y cyhoedd.	sy'n gwneud hyfforddiant archwilio. Gweithredu canfyddiadau adroddiadau archwiliadau.	2025-2028
--	-------------------------	--	--	-----------

Amcan C: Sicrhau tegwch drwy Lywodraethu ac Atebolrwydd

Llywodraethu
ac
Atebolrwydd

Datganiad:

Mae'r amcan hwn yn dangos ein hymrwymiad i wneud pethau mewn ffordd dryloyw ac onest.

Sut rydym yn bwriadu cyflawni hyn:

Blaenoriaeth		Canlyniadau Arfaethedig	Mesurau Canlyniadau	Amserlenni
C1	Gwella systemau a phrosesau digidol BIPBC i gofnodi a monitro data cydraddoldeb cleifion a'r gweithlu i lywio gwaith cynllunio sy'n seiliedig ar wybodaeth.	Y gallu i ddadgyfuno data cleifion a'r gweithlu yn ôl nodwedd warchodedig er mwyn llywio penderfyniadau cynhwysol.	Cynyddu'r data am nodweddion gwarchodedig sydd ar gael o Systemau Cleifion – o un flwyddyn i'r llall. Cynyddu'r data am Nodweddion Gwarchodedig sydd ar gael o'r Systemau Gwybodaeth am y Gweithlu o un flwyddyn i'r llall.	2024-2028 2024-2028
C2	Cryfhau cydymffurfiaid â'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol.	Lleihau anghydraddoldebau canlyniadau wrth wneud penderfyniadau strategol ar gyfer y rheini sy'n wynebu	Nifer y strategaethau ac achosion busnes sy'n cael eu cyflwyno i'r Bwrdd sydd ag	2024-2028

		anfantais economaidd-gymdeithasol.	asesiad Economaidd-gymdeithasol wedi'i gwblhau.	
C3	Sefydlu 'cydraddoldeb' fel maes perfformiad o fewn fframwaith perfformiad BIPBC.	Mwy o atebolrwydd ar ddarparu gofal cynhwysol. Gwreiddio Dangosyddion Perfformiad Allweddol Cydraddoldeb yn Fframwaith Perfformiad BIPBC.	Gwella perfformiad o fewn Dangosyddion Perfformiad Allweddol Cydraddoldeb o flwyddyn i flwyddyn.	2026-2028
C4	Datblygu a gwreiddio fframwaith sy'n seiliedig ar gydraddoldeb a hawliau dynol ar gyfer gwneud penderfyniadau cynhwysol ar gyfer prosesau rheoli prosiectau, adolygu llwybrau a chaffael.	Gwella canllawiau ynghylch gwneud penderfyniadau cynhwysol. Ymgorffori egwyddorion cydraddoldeb mewn prosesau llywodraethu. Cynnal hunanasesiad matrices Aeddfedrwydd Cydraddoldeb.	Gwella sgôr hunanasesu matrices Aeddfedrwydd Cydraddoldeb o un flwyddyn i'r llall.	2024-2028
C5	Cyflwyno sesiynau addysg cydraddoldeb rheolaidd i'r Bwrdd er mwyn gwreiddio dyletswyddau cydraddoldeb a hawliau dynol.	Sicrhau bod Aelodau'r Bwrdd yn gwybod beth yw eu dyletswyddau – mewn perthynas â Deddf Cydraddoldeb 2010.	Nifer sy'n bresennol. Amcanion Adolygiad Datblygu Perfformiad Blynyddol mewn perthynas â chydraddoldeb.	2024-2028 2025-2026

Amcan D: Sicrhau tegwch drwy fod yn sefydliad caredig a thosturiol

Caredig a
Thosturiol

Datganiad:

Mae'r amcan hwn yn dangos ein hymrwymiad i drin pawb â charedigrwydd, parch ac urddas – pethau y mae gan bawb yr hawl i'w cael.

Beth mae'r dystiolaeth yn ei ddweud wrthym:

- Cydnabod yr angen i feithrin ymddiriedaeth gyda'n cymunedau.
- Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus¹⁰ yn gofyn am dystiolaeth o wneud penderfyniadau tryloyw a chlir. Mae hyn yn cynnwys tystiolaeth o **Sylw Dyladwy** i'r angen i wneud y canlynol:
 1. rhoi terfyn ar ymddygiad anghyfreithlon sydd wedi'i wahardd dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010¹¹ gan gynnwys gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth
 2. datblygu cyfleoedd cyfartal rhwng pobl â nodweddion gwarchodedig a'r rheini nad oes ganddynt nodwedd warchodedig
 3. meithrin perthynas dda rhwng pobl â nodweddion gwarchodedig a'r rheini nad oes ganddynt nodwedd warchodedig
- Mae tystiolaeth yn dangos os yw arweinwyr a rheolwyr yn creu amgylcheddau cadarnhaol a chefnogol i staff, mae'r staff hynny wedyn yn creu amgylcheddau gofalgarn a chefnogol i gleifion, gan ddarparu gofal o ansawdd uwch¹¹.
- Fel rhan o'r broses ymgysylltu, cododd rhanddeiliaid bryderon am achosion o ymddygiad anghynhwysol.

¹⁰ Deddf Cydraddoldeb 2010 | Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (equalityhumanrights.com)

¹¹ Developing Collective Leadership For Health Care | The King's Fund (kingsfund.org.uk)

- Mae tystiolaeth o Datix a Phrofiad Cleifion a Gofalwyr yn tynnu sylw at yr angen am ragor o ofal tosturiol a chynhwysol.
- Mae data o Arolwg Staff GIG Cymru yn BIPBC yn dangos bod 20% o staff yn cytuno'n gryf mai gofalu am gleifion/defnyddwyr gwasanaethau yw prif flaenoriaeth y sefydliad.

Sut rydym yn bwriadu cyflawni hyn:

Blaenoriaeth		Canlyniadau Arfaethedig	Mesurau Canlyniadau	Amserlenni
D1	Ymgorffori egwyddorion a chanlyniadau cydraddoldeb o fewn rhaglen waith Arweinyddiaeth, Diwylliant ac Ymgysylltu BIPBC.	Aelodau'r Bwrdd, Uwch Arweinwyr a Rheolwyr i gymryd rhan weithredol yn y gwaith o oruchwylio blaenoriaethau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, gyda mwy o ymwybyddiaeth a hyfforddiant yn gefn iddynt.	Nifer sy'n bresennol.	2024-2028
			Amcanion Adolygiad Datblygu Perfformiad Blyneddol mewn perthynas â chydaddoldeb.	2025-2028
D2	Gwella'r gefnogaeth i staff sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol.	Rheolwyr i gyfeirio staff at gymorth priodol. Staff yn gallu cael gafael ar gymorth.	Nifer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth Money Helper.	2025-2026
D3	Cryfhau a datblygu camau gweithredu sy'n ymwneud â chydaddoldeb ymhellach i wella amrywiaeth wrth recriwtio, ac i gefnogi ein gweithlu'n effeithiol.	Gwella amrywiaeth ymgeiswyr a phobl sy'n cael eu penodi.	Gwelliant yn adroddiadau cydraddoldeb y gweithlu ar gyfer nodweddion gwarchodedig.	2024-2028

D4	Cyhoeddi adroddiadau ar y bwllch cyflog ar gyfer rhywedd, hil ac anabledd i lywio'r gwaith o gynllunio'r gweithlu ymhellach er mwyn lleihau bylchau cyflog.	Cau'r bwllch cyflog ar gyfer rhywedd, hil ac anabledd. Gwella amodau gwaith a chadw'r gweithlu.	Gostyngiad yn y gwahaniaethau yn y bwllch cyflog o un flwyddyn i'r llall yn yr adroddiad ar y bwllch cyflog.	2024-2028
D5	Datblygu rôl Hyrwyddwyr Cydraddoldeb a Chynhwysiant ar draws gweithlu BIPBC.	Gwella cyfranogiad Hyrwyddwyr Cydraddoldeb ym mhob gwasanaeth ar draws BIPBC.	Cynyddu nifer yr Hyrwyddwyr Cydraddoldeb.	2025-2028

Amcan E: Sicrhau tegwch drwy arloesi

Arloesi

Datganiad:

Mae'r amcan hwn yn dangos ein hymrwymiad i ddysgu parhaus, ymarfer arloesol a mynd i'r afael â syniadau newydd gyda meddwl agored.

Beth mae'r dystiolaeth yn ei ddweud wrthym:

- Y bobl sydd â'r angen mwyaf am iechyd a gofal, gan gynnwys pobl anabl a phobl hŷn, yw'r lleiaf tebygol o fod ar-lein yn ôl y Ddeddf Gofal Digidol Gwrthgyfartal.¹²
- Mae'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn mynnu bod y Bwrdd Iechyd yn lleihau anghydraddoldeb canlyniadau i'r rheini sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol.¹³
- Drwy gynyddu ymwybyddiaeth, rydym yn cael gwell dealltwriaeth o'r rhwystrau sy'n wynebu pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig a chymunedau buddiant. Bydd hyn yn helpu i ddod o hyd i atebion i ddiwallu anghenion ein cymunedau.

¹² <https://www.nuffieldtrust.org.uk/news-item/digital-and-remote-primary-care-the-inverse-care-law-with-a-21st-century-twist>

¹³ <https://www.llyw.cymru/dyletswydd-economaidd-gymdeithasol-trosolwg>

Sut rydym yn bwriadu cyflawni hyn:

Blaenoriaeth		Canlyniadau Arfaethedig	Mesurau Canlyniadau	Amserlenni
E1	Datblygu tystiolaeth cynhwysiant digidol ac adnodd arferion gorau.	Cyfrannu at gyflawni'r Map Digidol.	Defnydd gwell o apwyntiadau digidol.	2024-2025
		Cael dealltwriaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth o'r rhwystrau i gynhwysiant digidol.	Adborth gwell am ein gwasanaethau digidol.	2026-2028
E2	Sganio'r gorwel: ymatebion rhagweithiol i newidiadau deddfwriaethol sy'n effeithio ar wasanaethau iechyd a lles.	Mae arweinwyr ac uwch Reolwyr yn ymwybodol o ddeddfwriaeth newydd / arfaethedig sy'n effeithio ar wasanaethau iechyd a lles.	Cynnwys BIPBC mewn ymatebion i ymgynghoriadau ar gyfer papurau gwyn.	2024-2028
E3	Cynyddu ymwybyddiaeth o ymgyrchoedd a digwyddiadau cydraddoldeb sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau strategol BIPBC.	Mwy o gynrychiolaeth o gyfraniadau i ymgyrchoedd cydraddoldeb ar draws BIPBC.	Presenoldeb mewn digwyddiadau.	2024-2028
		Mwy o amlygrwydd i ddigwyddiadau a gweithgareddau sy'n ymwneud â chydraddoldeb.	Ymweliadau â thudalennau Cydraddoldeb Betsi Net a nifer y bobl sydd wedi hoffi / rhoi sylw.	2024-2028
E4	Cymryd camau i fynd i'r afael ag anghenion iechyd grwpiau agored i niwed. (E.e. digartrefedd, Sipsiwn, Roma a Theithwyr, anfantais	Atal a lleihau anghydraddoldebau iechyd mewn grwpiau agored i niwed yng ngogledd Cymru.	Cynnydd ar gynllun gweithredu BIPBC ar wella monitro cydraddoldeb.	2024-2028
		Gwella canlyniadau iechyd corfforol a meddyliol grwpiau	Cynnydd yn nifer y meysydd monitro	

	economaidd-gymdeithasol.)	agored i niwed yng ngogledd Cymru. Gwell mynediad at wasanaethau atal a gofal iechyd i grwpiau agored i niwed yng ngogledd Cymru Data sydd ar gael yn ôl nodweddion gwarchodedig i nodi anghenion iechyd poblogaethau agored i niwed, a llywio'r gwaith o ddarparu gwasanaethau drwy lens anghydraddoldebau. Mae anghenion gofal iechyd ceiswyr lloches a ffoaduriaid yn cael eu diwallu ochr yn ochr ag anghenion y gymuned ehangach. Mae gan staff well dealltwriaeth o atal hunanladdiad. Mae cyfleoedd i atal digartrefedd yn cael eu deall yn well ar draws y system. Nid yw pobl ag anabledau dysgu yn profi marwolaethau	cydraddoldeb sy'n cael eu llenwi ar System Gweinyddu Cleifion Cymru (WPAS). Cynnydd ar y cynllun gweithredu i ddelio â'r nifer cynyddol o Geiswyr Lloches sy'n byw yng ngogledd Cymru Cynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth staff o atal hunanladdiad Mae strategaethau Digartrefedd Awdurdodau Lleol yn cael eu mapio ar draws gogledd Cymru. Cynnydd mewn cyfraddau sgrinio ac Archwiliadau Iechyd y GIG.	
--	----------------------------------	--	---	--

		cynamserol oherwydd cyflyrau iechyd y gellir eu hatal		
--	--	---	--	--

Ein hymrwymiad i gyflawni ein hamcanion

Bydd ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol yn gofyn am ymrwymiad a chydberchnogaeth o bob rhan o'r Bwrdd Iechyd, wedi'u hategu gan ddiwylliant dysgu sy'n croesawu newid cadarnhaol. Yn gyffredinol, y Bwrdd sy'n gyfrifol am ein Hamcanion Cydraddoldeb.

Mae'r cynllun hwn yn cyd-fynd â'r meysydd gwaith blaenoriaeth presennol ac felly dylai fod yn niwtral o ran cost. Bydd unrhyw gyllid ychwanegol a ddaw ar gael yn gwella cynnydd yr amcanion a nodir ym mhob rhan o'r bwrdd iechyd.

Bydd angen rhagor o gynllunio manwl ar gyfer pob un o'r meysydd blaenoriaeth yn ystod 2024-2028, a bydd angen iddynt fod yn hyblyg er mwyn caniatáu ar gyfer newidiadau deddfwriaethol a newidiadau yn ein poblogaeth.

Rydym wedi ymrwymo'n frwd i fabwysiadu dull 'cyd-gynhyrchu' o ran sut rydym yn datblygu cynlluniau i gyflawni ein hamcanion cydraddoldeb. Bydd hyn yn cael ei oruchwyllo gan y Fforwm Strategol Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, a bydd yn cyd-fynd â'r bwriad strategol ac amcanion CAMPUS:

Cyraeddadwy

Amserol

Mesuradwy

Penodol

Uchelgeisiol

Synhwyrol

Bydd cynnydd ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cael ei adrodd drwy:

- Fforwm Strategol Cydraddoldeb a Hawliau Dynol BIPBC bob chwarter.
- Llywodraeth Cymru ddwywaith y flwyddyn.
- Adroddiad Cydraddoldeb Blyneddol sy'n cael eu cyhoeddi ar ein gwefan.

Atodiadau

1: Deddfwriaeth sy'n ymwneud â chydraddoldeb a gwybodaeth am sbardunau strategol

2: Gwybodaeth ddemograffig

3: Gwybodaeth Ymgysylltu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol

4: Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru – Amcanion Cyffredin

Atodiad 1: Deddfwriaeth Cydraddoldeb a Chyd-destun Strategol

Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gwarchod pobl a grwpiau rhag cael eu trin yn anffafriol ac yn ei gwneud yn anghyfreithlon gwahaniaethu, aflonyddu neu erlid pobl oherwydd rheswm sy'n gysylltiedig â'u nodwedd warchodedig.

Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus

Mae Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn mynnu ein bod yn dangos ein bod yn cydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, sy'n gosod dyletswydd statudol ar y Bwrdd Iechyd i wneud y canlynol:

- ☐ Dileu gwahaniaethu, aflonyddu, ac erlid anghyfreithlon;
- ☐ Datblygu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig perthnasol a'r rheini nad ydynt;
- ☐ Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig perthnasol a'r rheini nad ydynt.

Mae gan y Bwrdd Iechyd hefyd ddyletswydd benodol o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus i gymryd y camau canlynol:

- ☐ Cyhoeddi gwybodaeth i ddangos cydymffurfiaeth â'r Dyletswyddau Cydraddoldeb, o leiaf unwaith y flwyddyn
- ☐ Gosod amcanion cydraddoldeb, o leiaf bob 4 blynedd.

Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol

Cafodd y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol ei chyflwyno gan Lywodraeth Cymru ar 31 Mawrth 2021, gan roi adran o Ddeddf Cydraddoldeb (2010) ar waith a oedd yn arfer bod yn segur. Ei nod yw sicrhau canlyniadau gwell i'r rheini sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae'n gwella ymhellach y ddeddfwriaeth cydraddoldeb bresennol a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn mynnu bod y Bwrdd Iechyd, wrth wneud penderfyniadau strategol, yn rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau anghydraddoldebau o ran canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol.

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn cynnwys y ddarpariaeth sy'n ofynnol ar gyfer y Gymraeg. Mae'r mesur hwn yn ei le i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn rhoi cyfle i ni feddwl yn wahanol a rhoi pwyslais newydd ar wella llesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i ni feddwl mwy am y tymor hir, gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a sefydliadau, ceisio atal problemau a dilyn dull gweithredu cyson. Mae'r Ddeddf hon yn rhoi saith nod llesiant ar waith, ac mae angen i ni sicrhau ein bod ni'n cyfrannu cymaint â phosibl at bob un o'r saith.

Mae angen i ni newid y ffordd rydym yn gweithio, gan sicrhau ein bod yn mabwysiadu'r egwyddor datblygu cynaliadwy a ddiffinnir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – mae hyn yn golygu cymryd camau i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol, gyda'r amcan o gyflawni'r saith nod. Dyma'r pum ffordd o weithio y mae angen i ni feddwl amdany'n nhw wrth weithio tuag at hyn.



Rydym wedi ceisio adlewyrchu'r pum ffordd o weithio wrth ddatblygu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Un o'n dyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw gosod amcanion llesiant ar gyfer y Bwrdd Iechyd. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi'r saith amcan llesiant canlynol gyda phartneriaid a rhanddeiliaid:

- ✓ Gwellu iechyd a llesiant corfforol, emosiynol a meddyliol i bawb
- ✓ Targedu ein hadnoddau at y rhai sydd â'r anghenion mwyaf a lleihau anghydraddoldebau

- ✓ Cefnogi plant i gael y dechrau gorau mewn bywyd
- ✓ Gweithio mewn partneriaeth i gefnogi pobl – unigolion, teuluoedd, gofalwyr, cymunedau - i wella eu llesiant eu hunain
- ✓ Gwella diogelwch ac ansawdd yr holl wasanaethau
- ✓ Parchu pobl a'u hurddas
- ✓ Gwrando ar bobl a dysgu o'u profiadau

Deddf Hawliau Dynol 1998

Mae Deddf Hawliau Dynol 1998 yn nodi safonau cyffredinol i sicrhau bod anghenion sylfaenol person yn cael eu cydnabod a'u diwallu. Mae gan Gyrrff Cyhoeddus ddyletswydd orfodol i sicrhau bod ganddynt drefniadau ar waith i gydymffurfio â Deddf Hawliau Dynol 1998. Mae'n anghyfreithlon i sefydliad gofal iechyd weithredu mewn unrhyw ffordd sy'n anghydnaws â Deddf Hawliau Dynol 1998. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod yn rhaid i ni sicrhau Tegwch, Parch, Cydraddoldeb, Urddas a Ymreolaeth i bawb. Mae'r rhain yn cael eu galw'n egwyddorion FREDa.

Safon Cymru Gyfan ar gyfer Cyfathrebu Hygyrch

Mae Safon Cymru Gyfan ar gyfer Cyfathrebu Hygyrch a Gwybodaeth i Bobl â Nam ar y Synhwyrâu a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru (2013) yn nodi lefel y gwasanaeth y dylai pobl sydd â nam ar eu synhwyrâu ddisgwyl ei gael pan fyddant yn cael gofal iechyd. Mae'r safonau hyn yn berthnasol i oedolion, pobl ifanc a phlant.

Deddf y Lluoedd Arfog 2021

Nod y cyfamod yw atal staff y lluoedd arfog a chyn-filwyr a'u teuluoedd rhag cael eu rhoi dan anfantais wrth gael mynediad at wasanaethau cyhoeddus. Roedd hyn yn cyflwyno dyletswydd statudol i roi "sylw dyledus" i egwyddorion

Cyfamod y Lluoedd Arfog.

Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru

Ym mis Mehefin 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y “Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol”¹⁴. Mae'r cynllun gweithredu hwn yn gosod cyfrifoldeb ar gyrff cyhoeddus i adrodd am gynnydd amlwg mewn meysydd y manylir arnynt mewn camau gweithredu penodol. Mae iechyd yn rhan o'r cynllun, a bydd BIPBC yn cymryd y camau gweithredu sydd wedi'u cynnwys mewn pum maes gweithredu blaenoriaeth iechyd:

1. Arweinyddiaeth
2. Y gweithlu
3. Data
4. Mynediad at wasanaethau
5. Anghydraddoldebau iechyd

Cynllun Gweithredu LHDTTC+ Llywodraeth Cymru

Ar 7 Chwefror 2023, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y Cynllun Gweithredu LHDTTC+. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud ei bod eisiau sicrhau mai “Cymru yw'r wlad fwyaf cyfeillgar yn Ewrop i bobl LHDTTC+” gyda'r nod o ddangos “ein hymrwymiad clir i barchu, diogelu a chyflawni hawliau dynol holl bobl LHDTTC+ Cymru”. Mae iechyd yn un o elfennau'r cynllun. Nod y cynllun yw cefnogi pobl LHDTTC+ Cymru i fyw eu bywydau i'r eithaf: i fod yn iach, yn hapus, a theimlo'n ddiogel. Mae'r cynllun yn nodi gweledigaeth gyffredinol i wella bywydau a chanlyniadau pobl LDHTC+. Mae'n cynnwys ystod eang o gamau gweithredu sy'n benodol i bolisi sy'n ymwneud â hawliau dynol, addysg, gwella diogelwch, tai, iechyd a gofal cymdeithasol, chwaraeon, diwylliant, a hyrwyddo cydlyniant cymunedol.

¹⁴ Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol | LLYW.CYMRU

Bydd BIPBC yn cymryd y camau gweithredu sydd wedi'u cynnwys yn y camau gweithredu sy'n ymwneud ag iechyd, sef:

- Deall a gwella'r profiad pobl LHDTC+ yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol.
- Sicrhau bod gwasanaethau mamolaeth a ffrwythlondeb yn hygyrch ac yn syml i'w defnyddio ar gyfer pobl LHDTC+.
- Sicrhau bod y gwaith o ddatblygu'r strategaeth iechyd meddwl newydd yn rhoi sylw i bobl LHDTC+.
- Cyhoeddi a gweithredu ar Gynllun Gweithredu HIV newydd a goresgyn y rhwystrau sy'n atal pobl LHDTC+ rhag defnyddio gwasanaethau iechyd rhywiol.
- Adolygu'r llwybr Datblygu Hunaniaeth o ran Rhywedd ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru.
- Parhau i ddatblygu Gwasanaeth Rhywedd Cymru.
- Gwella'r prosesau cofnodi a newid data ar gyfer cadw cofnodion meddygol pobl draws, anneauidd a rhyngryw.

Byw'n iach, Aros yn iach BIPBC

Byw'n iach, Aros yn iach yw strategaeth hirdymor y Bwrdd Iechyd sy'n disgrifio sut bydd iechyd, llesiant a gofal iechyd yng ngogledd Cymru yn edrych yn y dyfodol a sut rydym yn gweithio tuag at hyn. Byddwn yn:

- Gwella iechyd ac yn lleihau anghydraddoldebau iechyd
- Darparu gofal yn nes at y cartref
- Darparu'r gofal gorau pan fydd eich anghenion iechyd yn fwy difrifol
- Gwella iechyd meddwl a llesiant
- Cefnogi plant a phobl ifanc i gael y dechrau gorau mewn bywyd
- Cefnogi pobl i heneiddio'n dda

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: [https://padlet-](https://padlet-uploads.storage.googleapis.com/1249886166/6b1d109ceeae18d7221e340dc7f1e178/BC_U_Strategy_Cy_FINAL1.pdf)

[uploads.storage.googleapis.com/1249886166/6b1d109ceeae18d7221e340dc7f1e178/BC_U_Strategy_Cy_FINAL1.pdf](https://padlet-uploads.storage.googleapis.com/1249886166/6b1d109ceeae18d7221e340dc7f1e178/BC_U_Strategy_Cy_FINAL1.pdf)

Atodiad 2: Gwybodaeth ddemograffig

Sir y Fflint sydd â'r boblogaeth fwyaf yng ngogledd Cymru (156,100), ac yna Wrecsam (135,957). Ynys Môn sydd â'r boblogaeth leiaf (70,043). (ffynhonnell: Nomis 2022).


Data sy'n ymwneud â chydraddoldeb yng ngogledd Cymru o Gyfrifiad 2021:

Oedran:

Tabl yn dangos niferoedd y boblogaeth ar gyfer pob grŵp oedran:

	Ardal BCUHB	Cymru
4 oed ac iau	32,980	155,086
5-9 oed	38,019	175,925
10-15 oed	47,668	217,067
16-19 oed	28,863	141,405
20-24 oed	35,534	187,675
25-34 oed	77,305	382,674
35-49 oed	117,357	547,659
50-64 oed	147,975	637,958
65-74 oed	86,581	358,977
75-84 oed	54,102	220,491
85 oed a hŷn	20,525	82,575
Cyfanswm: Yr holl breswylwyr arferol	686,909	3,107,492

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021



Mae amrywiadau o ran oedran: mae gan Sir y Fflint a Wrecsam boblogaeth iau gyda 19% o'r boblogaeth yn 15 oed ac iau, ac mae gan Ynys Môn a Sir Conwy boblogaeth hŷn gyda 26% a 28% yn 65 oed a hŷn (yn y drefn honno). Yn Sir Conwy hefyd y mae'r ganran fwyaf o bobl 85 oed a hŷn, sef 4% o'r boblogaeth.


Namau a chyflyrau hirdymor / anabledau

72,235 o bobl - 10.5% o'r boblogaeth, fel y'i diffinnir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb

10.3% o'r boblogaeth sy'n darparu mwy na 19 awr o ofal bob wythnos

Siart yn dangos y nifer a ragwelir o bobl 18 oed a hŷn sydd â salwch cyfyngol hirdymor, 2014 i 2035¹⁵

¹⁵ Asesiad poblogaeth gogledd Cymru 2017



Hunaniaeth rhywedd

Tabl yn dangos Hunaniaeth rhywedd – cyfrifiad 2021:

Hunaniaeth rhywedd	Ardal BCHUB		Cymru	
	rhif	%	rhif	%
Cyfanswm: Yr holl breswylwyr arferol sy'n 16 oed neu'n hŷn	568,240	100.0	2,559,416	100.0
Hunaniaeth rhywedd yr un fath â'r rhyw a gofrestrwyd adeg geni	527,157	92.8	2,387,304	93.3
Hunaniaeth rhywedd yn wahanol i'r rhyw a gofrestrwyd adeg geni, ond ni roddwyd hunaniaeth benodol	706	0.1	4,015	0.2
Menyw draws	360	0.1	1,888	0.1
Dyn traws	343	0.1	1,922	0.1
Anneuaidd	254	0.0	1,548	0.1
Pob hunaniaeth arall o ran rhywedd	167	0.0	897	0.0
Heb ateb	39,253	6.9	161,842	6.3

Crynodeb o'r cyfrifiad:

- Cyfrifiad 2021 oedd y tro cyntaf i gwestiwn am hunaniaeth rhywedd gael ei chynnwys (fel cwestiwn gwirfoddol i bobl 16 oed a hŷn). Roedd 94.0% o'r atebwyr wedi ateb. Mae hyn yn dangos bod 262,000 o bobl yn byw yng Nghymru a Lloegr ym mis Mawrth 2021 a oedd yn uniaethu â rhywedd gwahanol i'w rhyw a gofrestrwyd adeg geni.
- Yng ngogledd Cymru, dywedodd 703 o bobl eu bod yn drawsryweddol, a dywedodd 254 eu bod yn anneuaidd. Ni wnaeth 39,253 o bobl ymateb i'r cwestiwn hwn.
- Roedd Stonewall¹⁶ wedi amcangyfrif yn flaenorol y gallai 1% o'r boblogaeth ystyried eu hunain yn Draws, gan gynnwys pobl sy'n ystyried eu hunain yn anneuaidd.
- Byddai hyn yn golygu bod tua 7,000 o bobl Draws yng ngogledd Cymru. Mae'r cyfrifiad yn nodi bod 1,830 wedi datgan bod eu rhywedd yn wahanol i'r rhyw a gofrestrwyd adeg geni, ond gallai'r nifer sylweddol o bobl na atebodd y cwestiwn (39,253) ystumio'r nifer gwirioneddol o bobl draws / anneuaidd.

Dylid bod yn ofalus gyda data'r cyfrifiad LHDTTC+, oherwydd mae'n cael ei ystyried fel amcangyfrif isel iawn.

Ethnigrwydd

Tabl yn dangos ethnigrwydd yn ôl awdurdod lleol, bwrdd iechyd, a Chymru gyfan – Cyfrifiad 2022¹⁷

Grŵp ethnig	Ardal BCUHB		Cymru	
	rhif	%	rhif	%
Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd Cymreig	9,400	1.4	89,028	2.9

¹⁶ ¹⁶ [Student Frequently Asked Questions \(FAQs\) | Stonewall](#)

¹⁷ [Cyfrifiad Nomis 2021](#)

Du, Du Prydeinig, Du Cymreig, Caribïaidd neu Affricanaidd	2,326	0.3	27,554	0.9
Grwpiau Aml-ethnig neu Gymysg	7,241	1.1	48,598	1.6
Gwyn	665,147	96.8	2,915,848	93.8
Grŵp ethnig arall	2,802	0.4	26,466	0.9
Cyfanswm: Yr holl breswylwyr arferol	686,916	100.0	3,107,494	100.0

Mae dadansoddiadau manylach ar gael ar NOMIS.

Crefydd

Tabl yn dangos crefydd ar lefel awdurdod lleol a lefel Cymru – cyfrifiad 2021¹⁸

Crefydd	Ardal BCUHB		Cymru	
	rhif	%	rhif	%
Cyfanswm: Yr holl breswylwyr arferol	686,910	100.0	3,107,494	100
Dim crefydd	286,722	41.7	1,446,398	46.5
Cristion	341,972	49.8	1,354,773	43.6
Bwdhydd	2,076	0.3	10,075	0.3
Hindŵ	1,433	0.2	12,242	0.4
Iddew	311	0.0	2,044	0.1
Mwslim	5,326	0.8	66,947	2.2
Sikh	248	0.0	4,048	0.1
Crefydd arall	3,141	0.5	15,926	0.5
Heb ateb	45,681	6.7%	195,041	6.3

¹⁸ [Nomis KS209EW - Crefydd](#)

Rhyw / Rhywedd

Tabl yn dangos rhywedd (y cyfeirir ato weithiau fel rhyw) – ar draws gogledd Cymru o Gyfrifiad 2021¹⁹.

Ardal	Pob person		Menyw		Gwryw	
	rhif	%	rhif	%	rhif	%
Ardal BCUHB	686,909	100.0	350,752	50.1	336,157	48.9
Cymru	3,107,494	100.0	1,586,490	51.1	1,521,004	48.9

Cyfeiriadedd Rhywiol

Tabl yn dangos cyfeiriadedd rhywiol - Cyfrifiad 2021:

Cyfeiriadedd rhywiol	Ardal BCUHB		Cymru	
	rhif	%	rhif	%
Cyfanswm - pobl 16 oed a hŷn	568,242	100.0	2,559,414	100.0
Strêt neu Heterorywiol	507,770	89.4	2,288,630	89.4
Hoyw neu Lesbiaidd	7,282	1.3	38,101	1.5
Deurywiol	5,725	1.0	31,814	1.2
Panrywiol	836	0.1	4,534	0.2
Anrhywiol	269	0.0	1,558	0.1
Queer/Cwiar	88	0.0	583	0.0
Pob cyfeiriadedd rhywiol arall	59	0.0	273	0.0
Heb ateb	46,213	8.1	193,921	7.6

Roedd cyfrifiad 2021 yn cynnwys cyfeiriadedd rhywiol fel cwestiwn gwirfoddol. Mae'n tynnu sylw at y ffaith bod 3% o'r boblogaeth yng Nghymru wedi dweud eu bod nhw'n Hoyw, Deurywiol, Panrywiol, Anrhywiol, Cwiar neu arall. Nid oedd 7.6% wedi ateb. Dywedodd 89.4% eu bod yn heterorywiol. Mae hyn yn debyg iawn i'r sefyllfa yng ngogledd Cymru.

¹⁹ Nomis - Official Census and Labour Market Statistics - Nomis - Official Census and Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk)

Ceir rhai amrywiadau bach yng ngogledd Cymru gyda chyfraddau ychydig yn uwch o bobl heterorywiol yn Sir y Fflint (90.5%) ac Ynys Môn (90.0%).

Dylid bod yn ofalus gyda'r data datgelu gan nad oedd nifer o bobl (8.1%) yng ngogledd Cymru wedi ateb y cwestiwn gwirfoddol. Gall hyn ystumio'r gwir niferoedd. Mae Stonewall²⁰ yn amcangyfrif bod gwir ganran y bobl LHD rhwng 5% a 7%. Byddai hyn yn golygu bod tua 35,000 i 49,000 o bobl yng ngogledd Cymru yn LHD.

Siaradwyr Cymraeg

Mae gogledd Cymru yn gartref i fwy o siaradwyr Cymraeg nag unman arall yng Nghymru. Roedd y canrannau uchaf o bobl (ar draws Cymru) tair oed neu hŷn a oedd yn gallu siarad Cymraeg yng ngogledd-orllewin Cymru, gyda 64.4% yng Ngwynedd, a 55.8% yn Ynys Môn.

Ar Ddiwrnod y Cyfrifiad (21 Mawrth 2021), dywedodd amcangyfrif o 538,300 o breswylwyr arferol Cymru a oedd yn dair oed neu'n hŷn eu bod yn gallu siarad Cymraeg – sef 17.8% o'r boblogaeth. Mae hyn yn ostyngiad o tua 23,700 o bobl ers Cyfrifiad 2011, ac 1.2 pwynt canran yn is na Chyfrifiad 2011.

Mae gogledd Cymru yn gartref i fwy o siaradwyr Cymraeg nag unman arall yng Nghymru. Roedd y canrannau uchaf o bobl (ar draws Cymru) tair oed neu hŷn a oedd yn gallu siarad Cymraeg yng ngogledd-orllewin Cymru, gyda 64.4% yng Ngwynedd, a 55.8% yn Ynys Môn.

²⁰ [Student Frequently Asked Questions \(FAQs\) | Stonewall](#)


Tabl yn dangos Gallu siarad Cymraeg, ar lefel awdurdod lleol ac ar lefel Cymru 2018-2019 (wedi'i adolygu 20/02/23 yn aros am ddatganiad cyfrifiad 2021)

	Canran yr oedolion (16 oed a hŷn) sy'n siarad Cymraeg	Canran yr oedolion (16 oed a hŷn) nad ydynt yn gallu siarad Cymraeg	Canran yr oedolion (16 oed a hŷn) sydd â rhywfaint o allu i siarad Cymraeg
Conwy	37.05	49.57	13.38
Sir Ddinbych	30.17	57.89	11.95
Sir y Fflint	10.74	74.73	14.53
Gwynedd	65.95	21.25	12.80
Ynys Môn	52.91	32.97	14.12
Wrecsam	13.63	72.82	13.55
Cymru	18.10	67.34	14.56

Gwybodaeth am amddifadedd:

Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Is yn ôl pumedau o amddifadedd, Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn Gyffredinol, gogledd Cymru, 2019

Map yn dangos Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Is yn ôl pumedau o amddifadedd, Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn Gyffredinol, gogledd Cymru, 2019²¹



Anghydraddoldebau iechyd:

Setiau data ar gyfer 2018-2020²².

	Gwryw	Benyw	Bwlch rhwng y rhywiau
Y DU	79.2 blynedd	82.9 blynedd	3.7 blynedd
Cymru	78.3 blynedd	82.1 blynedd	3.8 blynedd
BIPBC	78.8 blynedd	82.3 blynedd	3.5 blynedd

²¹ Ffynhonnell: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru - Archwilio (llyw.cymru)

²² publichealthwales.shinyapps.io/PHWO_HealthExpectanciesWales_2022/

Tabl yn dangos lechyd Cyffredinol oedolion (16 oed a hŷn) yn ôl awdurdod lleol²³.

Ardal	lechyd da iawn	lechyd da	lechyd gweddol	lechyd gwael	lechyd gwael iawn
Conwy	48.2	32.6	13.5	4.4	1.3
Sir Ddinbych	47.0	32.4	14.1	4.9	1.6
Sir y Fflint	48.3	33.3	13.0	4.2	1.3
Gwynedd	51.5	31.2	12.4	3.7	1.0
Ynys Môn	50.7	31.2	13.1	3.9	1.1
Wrecsam	45.5	34.2	14.2	4.8	1.3
BIPBC	48.3	32.7	13.4	4.3	1.3
Cymru	46.6	32.5	14.1	5.1	1.6

Yn gyffredinol, mae poblogaeth gogledd Cymru yn cymharu'n dda â Chymru gyfan o ran ei statws ieuchyd cyffredinol a chael ei chyfyngu gan gyflwr ieuchyd neu nam. Fel y gwelir o'r tabl isod, mae pob ardal Awdurdod Lleol yn uwch na llinell sylfaen Cymru ar gyfer ieuchyd da iawn / ieuchyd da. Yr ardal a oedd yn adrodd am y lefelau uchaf o ieuchyd gwael yn ardal y Bwrdd Ieuchyd oedd Sir Ddinbych a Wrecsam, ac mae'r ardaloedd hyn yn wynebu'r lefelau uchaf o amddifadedd.

²³ TS037ASP NOMIS 2021 Nomis - Official Census and Labour Market Statistics - Nomis - Official Census and Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk)

Troseddau casineb 2022-2023:

Ardal Heddlu	Hil	Crefydd	Cyfeiriadedd rhywiol	Anabledd	Trawsryweddol
Cymru	3,727	287	1,225	849	302
Gogledd Cymru	862	57	279	170	61

Ardal Heddlu	Cyfanswm nifer y ffactorau sy'n cymell	Cyfanswm y troseddau
Cymru	6390	6,041
Gogledd Cymru	1,429	1,346


Mae rhagor o wybodaeth fanwl am ystadegau a thueddiadau troseddau casineb ar gael yn: [Hate crime, England and Wales, 2020 to 2021 - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk/government/statistics/hate-crime-in-england-and-wales-2020-to-2021)

Atodiad 3: Ymgysylltiad â'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Roedd 90 o bobl wedi cymryd rhan yn yr arolwg.


O ran demograffeg y rhai a oedd wedi cymryd rhan:


Oedran:




Anableddau a Gofalwyr:

Oes gennych chi anabledd?






Ailbennu Rhywedd:




A yw eich rhywedd yn wahanol i'r rhyw a gofnodwyd pan gawsoch chi eich geni?

Hil gan gynnwys cenedligrwydd:

Cyfrif o Hil




Cenedligrwydd neu Hunaniaeth Genedlaethol



Cenedligrwydd neu Hunaniaeth Genedlaethol

Crefydd neu Gred:


Crefydd neu gred



Crefydd neu gred


Rhyw/Rhywedd:

Rhywedd




Rhywedd


Cyfeiriadedd rhywiol:



Beichiogrwydd a Mamolaeth:



Y Gymraeg:



Dadansoddiad o'r ymatebion yn brif themâu o'r arolwg ac ymgysylltu wyneb yn wyneb.

Allwedd	Thema	Cyfanswm
1	Mynediad	51
2	Cyfathrebu	35
3	Lefelau Staffio	22
4	Ymddygiad	20
5	Cymhwysedd Diwylliannol/Croestoriadedd	18
6	Gofal yn Nes at y Cartref	16
7	Diffyg hyder mewn gwasanaethau	15
8	Digidol	15
9	Annibyniaeth	11
10	Model Cymdeithasol	11
11	Cyfleusterau	9
12	Llywodraethu	9
13	Sefydliadau Partner	8
14	Gwasanaethau Arbenigol Cynhwysol	4
15	Ymyriadau Cynnar	4
16	Parcio	2
17	Ymddiriedaeth	13

Sefydlu Blaenoriaethau Allweddol

Amcan a Nodwyd	Cysylltu â themâu
Amcan A: Sicrhau tegwch drwy weithio mewn partneriaeth – 'dim byd amdanoch chi heboch chi'	2,5,7,8,9,10,13 ac 17
Amcan B: Sicrhau tegwch drwy ddarparu gwasanaethau cynhwysol o ansawdd uchel	1 i 11 14 i 17
Amcan C: Sicrhau tegwch drwy Lywodraethu ac Atebolrwydd	7,12,13 ac 17

Amcan D: Sicrhau tegwch drwy fod yn sefydliad caredig a thosturiol	2,4,5.9 ac 17
Amcan E: Sicrhau tegwch drwy arloesi	1,2,6,8,9,11,13, ac 15

Atodiad 4: Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru – Amcanion Cyffredin



Mae Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru yn cael ei gynrychioli gan sefydliadau iechyd, Awdurdodau Lleol a'r Sector Cyhoeddus. Nodwyd yr amcanion isod yn dilyn arolwg ymgynghori ar y cyd ar draws gogledd Cymru.

Mae'r bartneriaeth wedi cytuno ar set gyffredin o amcanion sy'n canolbwyntio ar y meysydd allweddol canlynol:

Addysg.

Cyflogaeth a Chyflogau.

Safonau Byw.

Iechyd, Llesiant a Gofal Cymdeithasol.

Diogelwch Personol a Mynediad at Gyfiawnder.

Cyfranogiad ac Amrywiaeth wrth Wneud Penderfyniadau.

Anfantais Economaidd-gymdeithasol a Lleihau Anghydraddoldeb Canlyniadau.

Gyda'i gilydd, bydd y rhwydwaith yn sefydlu cynllun gweithredu i fwrw ymlaen â'r amcanion a nodwyd, gan weithio gyda'i gilydd i rannu arbenigedd ac adnoddau. Ni fydd pob un o'r amcanion yn berthnasol i bob sefydliad yn y rhwydwaith, felly bydd pob sefydliad yn nodi'r amcanion sy'n berthnasol er mwyn iddynt gydweithio. Isod ceir rhestr lawn o'r amcanion a nodwyd.

Bydd cynnydd ar yr amcanion cyffredin hyn yn cael ei ymgorffori yn adroddiadau cydraddoldeb blynyddol pob sefydliad.

Amcan 1: Canlyniadau mewn addysg, dysgu a llesiant yn cael eu gwella	
Meysydd Blaenoriaeth - Addysg	
1.1 Mae pob plentyn a pherson ifanc yn mynd i'r ysgol yn rheolaidd ac yn cyflawni eu potensial dysgu.	Nid yw'r maes hwn yn berthnasol i'r bwrdd iechyd.
1.2 Mae plant a phobl ifanc sy'n cael eu haddysgu mewn lleoliadau gofal plant hyd at addysg gynnar yn cyflawni eu potensial dysgu.	Nid yw'r maes hwn yn berthnasol i'r bwrdd iechyd.
1.3 Mae plant a phobl ifanc yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, yn cael cyfle cyfartal ac yn cael eu hannog i fyw bywyd iach.	Mae'r Bwrdd Iechyd yn cefnogi'r amcan hwn drwy ei gymorth tîm iechyd y cyhoedd.

1.4 Cefnogi pobl ifanc i fod yn fodelau rôl cadarnhaol yn eu cymunedau a'u cymdeithas.	Mae'r Bwrdd Iechyd yn cefnogi'r amcan hwn drwy fentrau iechyd y cyhoedd.
1.5 Cefnogi pawb dan 25 oed i gael cynnig gwaith, addysg, hyfforddiant neu i fod yn hunangyflogedig.	Mae'r Bwrdd Iechyd yn cefnogi'r amcan hwn drwy gynlluniau gweithlu i ddatblygu gweithlu'r dyfodol.

Amcan 2: Byddwn yn cymryd camau i sicrhau ein bod yn gyflogwr cyfle cyfartal ac yn lleihau bylchau cyflog	
Meysydd Blaenoriaeth - Cyflogaeth a Chyflogau	
2.1 Mynd i'r afael â gwahaniaethau cyflog rhwng y rhywiau, ethnigrwydd a phobl ag anableddau.	Mae'r Bwrdd Iechyd yn cefnogi'r amcan hwn drwy ei amcanion ei hun.
2.2 Adolygu ein harferion gweithio hyblyg i sicrhau cyfle cyfartal ar bob lefel.	Mae'r Bwrdd Iechyd yn cefnogi'r amcan hwn drwy ei amcanion ei hun.
2.3 Sicrhau polisiau effeithiol i atal ac ymateb i aflonyddu rhywiol a mathau eraill o aflonyddu.	Mae'r Bwrdd Iechyd yn cefnogi'r amcan hwn drwy weithio mewn partneriaeth â'r rhwydwaith a phartneriaid a rhanddeiliaid lleol.
2.4 Cynyddu nifer y bobl anabl sydd mewn gwaith.	Mae'r Bwrdd Iechyd yn cefnogi'r amcan hwn drwy weithio mewn partneriaeth â'r rhwydwaith a phartneriaid a rhanddeiliaid lleol.

2.5 Lleihau gwahanu ar sail rhyw (y dosbarthiad anghyfartal o ddynion a menywod sy'n gweithio mewn rolau sy'n draddodiadol benodol i rywedd).	Mae'r Bwrdd Iechyd yn cefnogi'r amcan hwn drwy ei amcanion ei hun.
2.6 Gwella cyfranogiad menywod, pobl o leiafrifoedd ethnig a phobl anabl mewn prentisiaethau.	Mae'r Bwrdd Iechyd yn cefnogi'r amcan hwn drwy weithio mewn partneriaeth â'r rhwydwaith a phartneriaid a rhanddeiliaid lleol.
2.7 Ystyried defnyddio mesurau gweithredu cadarnhaol mewn ymgyrchoedd recriwtio lle mae grwpiau penodol yn cael eu tangynrychioli.	Mae'r Bwrdd Iechyd yn cefnogi'r amcan hwn drwy ei amcanion ei hun.
2.8 Gweithredu rhaglen gwrth-hiliaeth a gwrth-wahaniaethu o fewn y sefydliad gan hyrwyddo gwerth perthnasoedd cadarnhaol, amrywiaeth a chynhwysiant.	Mae'r Bwrdd Iechyd yn cefnogi'r amcan hwn drwy ei amcanion ei hun.
2.9 Mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n atal pobl o gymunedau amrywiol rhag cael gwaith.	Mae'r Bwrdd Iechyd yn cefnogi'r amcan hwn drwy weithio mewn partneriaeth â'r rhwydwaith a phartneriaid a rhanddeiliaid lleol.

Amcan 3: Byddwn yn cymryd camau i wella Safonau Byw pobl sydd dan anfantais oherwydd eu nodweddion gwarchodedig
Meysydd Blaenoriaeth - Safonau Byw

3.1 Cymryd camau i fynd i'r afael ag effaith negyddol anghymesur ar bobl sydd â nodweddion gwarchodedig gwahanol.	Mae'r Bwrdd Iechyd yn cefnogi'r amcan hwn drwy ei amcanion ei hun.
3.2 Cefnogi hawl pobl anabl a phobl hŷn i fyw'n annibynnol, gan gynnwys digon o dai hygyrch ac addasadwy, a chymorth cysylltiedig.	Mae'r Bwrdd Iechyd yn cefnogi'r amcan hwn drwy weithio mewn partneriaeth â'r rhwydwaith a phartneriaid a rhanddeiliaid lleol.
3.3 Ymgysylltu'n well â phobl anabl wrth adnewyddu a dylunio adeiladau i sicrhau hygyrchedd llawn.	Mae'r Bwrdd Iechyd yn cefnogi'r amcan hwn drwy weithio mewn partneriaeth â'r rhwydwaith a phartneriaid a rhanddeiliaid lleol.
3.4 Gwella mynediad at wasanaethau i Sipsiwn a Theithwyr a gwella ymgysylltiad i ddatblygu ymddiriedaeth.	Mae'r Bwrdd Iechyd yn cefnogi'r amcan hwn drwy ei gymorth tîm iechyd y cyhoedd.
3.5 Sicrhau bod y gwasanaethau lloches, digartrefedd a thai yn cynnwys anghenion penodol grwpiau lleiafrifol, gan gynnwys pobl anabl, pobl o leiafrifoedd ethnig a phobl LHDTTC+.	Mae'r Bwrdd Iechyd yn cefnogi'r amcan hwn drwy ei gymorth tîm iechyd y cyhoedd yn ogystal â gweithio mewn partneriaeth â'r rhwydwaith a phartneriaid a rhanddeiliaid lleol.

Amcan 4: Byddwn yn gwella canlyniadau iechyd, Llesiant a Gofal Cymdeithasol
Meysydd Blaenoriaeth - Iechyd, Llesiant a Gofal Cymdeithasol

4.1 Sicrhau bod anghenion iechedd a llesiant gofawyr yn cael eu diwallu.	Mae'r Bwrdd Iechyd yn cefnogi'r amcan hwn drwy ei amcanion ei hun yn ogystal â gweithio mewn partneriaeth â'r rhwydwaith a phartneriaid a rhanddeiliaid lleol.
4.2 Cynyddu nifer y bobl ag anableddau dysgu sy'n cael archwiliadau iechedd blynyddol.	Mae'r Bwrdd Iechyd yn cefnogi'r amcan hwn drwy ei gymorth tîm iechedd y cyhoedd yn ogystal â gweithio mewn partneriaeth â'r rhwydwaith a phartneriaid a rhanddeiliaid lleol.
4.3 Gwerthuso'r cynllun atal hunanladdiad 'Siarad â Fi 2' yn llawn a chynllun gweithredu newydd i ostwng cyfraddau hunanladdiad ymysg dynion canol oed yng Nghymru.	Mae'r Bwrdd Iechyd yn cefnogi'r amcan hwn drwy ei amcanion ei hun yn ogystal â gweithio mewn partneriaeth â'r rhwydwaith a phartneriaid a rhanddeiliaid lleol.
4.4 Gwerthuso cynnydd o ran iechedd meddwl i sicrhau ein bod yn diwallu anghenion pobl sydd â nodweddion gwarchodedig gwahanol.	Mae'r Bwrdd Iechyd yn cefnogi'r amcan hwn drwy ei gymorth tîm iechedd y cyhoedd yn ogystal â gweithio mewn partneriaeth â'r rhwydwaith a phartneriaid a rhanddeiliaid lleol.
4.5 Defnyddio egwyddorion y Model Cymdeithasol o Anabledd wrth lunio polisiau a gwneud penderfyniadau.	Mae'r Bwrdd Iechyd yn cefnogi'r amcan hwn drwy ei amcanion ei hun.
4.6 Gweithredu ymwybyddiaeth a chymorth penodol ar gyfer pobl â chyflyrau niwrolegol.	Mae'r Bwrdd Iechyd yn cefnogi'r amcan hwn drwy ei amcanion ei hun.

4.7 Mynd i'r afael â rhwystrau o ran llesiant ac ymarfer corff.	Mae'r Bwrdd Iechyd yn cefnogi'r amcan hwn drwy ei amcanion ei hun.
4.8 Cefnogi a gwella hyder staff Gofal Cymdeithasol a staff eraill i dynnu sylw at ymddygiad hiliol a chamwahaniaethol arall maent yn ei brofi yn y gwaith, a mynd i'r afael â'r ymddygiad hwnnw.	Mae'r Bwrdd Iechyd yn cefnogi'r amcan hwn drwy weithio mewn partneriaeth â'r rhwydwaith a phartneriaid a rhanddeiliaid lleol.

Amcan 5: Byddwn yn gwella Diogelwch Personol a Mynediad at Gyfiawnder	
Meysydd Blaenoriaeth - Diogelwch Personol a Mynediad at Gyfiawnder	
5.1 Gweithio gyda'n partneriaid yng ngogledd Cymru i godi ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb a gwella hyder pobl o ran riportio'r troseddau hynny.	Mae'r Bwrdd Iechyd yn cefnogi'r amcan hwn drwy weithio mewn partneriaeth â'r rhwydwaith a phartneriaid a rhanddeiliaid lleol.
5.2 Gweithio gyda phartneriaid yng ngogledd Cymru i leihau achosion o Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.	Mae'r Bwrdd Iechyd yn cefnogi'r amcan hwn drwy weithio mewn partneriaeth â'r rhwydwaith a phartneriaid a rhanddeiliaid lleol.
5.3 Cynyddu ymwybyddiaeth o gyfrifoldebau diogelu a diogelwch personol.	Mae'r Bwrdd Iechyd yn cefnogi'r amcan hwn drwy weithio mewn partneriaeth â'r rhwydwaith a phartneriaid a rhanddeiliaid lleol.

Amcan 6: Cynyddu Mynediad at Gyfranogaeth a gwella amrywiaeth wrth wneud penderfyniadau	
Meysydd Blaenoriaeth - Cyfranogiad ac amrywiaeth wrth wneud penderfyniadau	
6.1 Cynyddu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd amrywiaeth mewn cynrychiolaeth wleidyddol a chyrff gwneud penderfyniadau.	Nid yw'r maes hwn yn berthnasol i'r bwrdd iechyd.
6.2 Sicrhau bod ymgysylltu'n gynhwysol er mwyn creu ymdeimlad o berthyn a chymuned.	Mae'r Bwrdd Iechyd yn cefnogi'r amcan hwn drwy weithio mewn partneriaeth â'r rhwydwaith a phartneriaid a rhanddeiliaid lleol.
6.3 Dylai mynediad at wasanaethau gael ei gefnogi gan gefnogaeth iaith briodol gan gynnwys Cymraeg, BSL ac ieithoedd eraill.	Mae'r Bwrdd Iechyd yn cefnogi'r amcan hwn drwy ei amcanion ei hun.
6.4 Gwella mynediad at wasanaethau drwy sicrhau bod dulliau eraill ar wahân i dechnoleg yn cael eu cynnig er mwyn atal allgáu digidol.	Mae'r Bwrdd Iechyd yn cefnogi'r amcan hwn drwy ei amcanion ei hun.

Amcan 7: Mynd i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol drwy gynnig gwasanaethau cynhwysol i leihau anghydraddoldebau canlyniadau
Meysydd Blaenoriaeth - Anfantais economaidd-gymdeithasol a lleihau anghydraddoldeb canlyniadau

Cynyddu ymwybyddiaeth o'r cysylltiadau rhwng tlodi ac afiechyd gyda gwahanol nodweddion gwarchodedig.	Mae'r Bwrdd Iechyd yn cefnogi'r amcan hwn drwy ei amcanion ei hun.
Gweithio gyda phartneriaid yng ngogledd Cymru i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.	Mae'r Bwrdd Iechyd yn cefnogi'r amcan hwn drwy weithio mewn partneriaeth â'r rhwydwaith a phartneriaid a rhanddeiliaid lleol.
Cael gwared ar y rhwystrau y mae pobl yn eu hwynebu oherwydd anfantais economaidd-gymdeithasol.	Mae'r Bwrdd Iechyd yn cefnogi'r amcan hwn drwy ei amcanion ei hun yn ogystal â gweithio mewn partneriaeth â'r rhwydwaith a phartneriaid a rhanddeiliaid lleol.
Cynyddu'r gefnogaeth sydd ar gael i blant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi er mwyn gwella canlyniadau.	Mae'r Bwrdd Iechyd yn cefnogi'r amcan hwn drwy weithio mewn partneriaeth â'r rhwydwaith a phartneriaid a rhanddeiliaid lleol.